

## Sut i ymuno a Zoom

Helo, Meirion sydd yma o Dim Lles Cymunedol yng Nghyngor Bwrdeistrefol Conwy, dwi mynd i drïo dangos i chi sut i ddefnyddio Zoom heddiw. Ymuno a Zoom, a defnyddio'r botymau o amgylch y sgrin sydd yn helpu ni neud y profiad y well. Fyddai ond yn dangos beth sydd yn digwydd ar liniadur neu ar gyfrifiadur heddiw, mae yna ddewisiadau gwahanol fel ffôn symudol neu tabledi, mae nhw yn defnyddio ffyrdd gwahanol o wneud pethau a mi wna i drïo neud fideo am rheina hefyd. Felly ffwrdd a ni!

I ddechrau y peth cyntaf sydd rhaid i chi gael ydy'r un o rhain, Google Chrome, Mozilla Firefox, Safari neu Microsoft Chromium Edge. Porwyr we ydy rheina, sut yda chi'n mynd ar y we, sut i weld pethau ar y we, os oes gennych chi u o'r rheini fedrwch chi ddefnyddio Zoom drwy'r we.

Dwi'n mynd i ddangos sut i neud hynny gyntaf, wedyn na'i ddangos sut i ddefnyddio'r ap.

Gan bo'r ddau bach yn wahanol, ond ddim yn ofnadwy o wahanol.

Y peth cyntaf yr ydych chi eisiau neud ydy gweld os oes ganddo chi gyswllt neu linc felma, hyper linc mae'n nhw'n alw nhw. Falle fydd o'n las i chi.

A fydd iso clico botwm chwith ar eich ebost neu ar Facebook a fydd o'n mynd a chi yno i'r porwr we. Mae genna i Chromium Edge. Mae o hefyd yn gofyn os ydw'i eisiau agor drwy'r ap. Dydw'i ddim eisiau agor drwy'r ap tro yma, felly dwi'n pwysu canslo. Dwi'n pwysu 'launch meeting', lansio cyfarfod a wedyn dwi'n o pwysu canslo eto. Falle fydd ddim rhaid i chi neud y canslo yna efo'r ap.

Rhowch eich enw yna, dwi wedi neud hyn dipyn o weithiau felly dwi yna'n barod.

Dwi ddim yn robot, mi nes i hynny gynna, mi ges i oleuadau traffig, falle y gewch chi rhywbeth Americanaidd falle, pethau fel 'hydrant' yn America neu injan dan neu rhywbeth felly.

A wedyn os yda chi'n profi'n iawn eich bod chi ddim yn Robot gewch chi ymuno.

Fydd o hyd yn gofyn, yn y cychwyn, am y sŵn, ymuno drwy'r sŵn y cyfrifiadur, Join Audio by Computer, mae hynny'n yn galluogi i chi chi glywed nhw a nhw glywed chi.

Helo Pero sut wyt ti?!

Rŵan os da chi'n sbïo ar y gwaelod mae yna ruban ar waelod y sgrin, fama ydy'r darn lle fedrwch chi a newid a distewi eich hun. Mute – Distewi.

Mae yna linell goch yn dod ar draws y meicroffon, mae hynny yn galluogi fel boch chi efo rhyw sŵn yn y cefndir neu falle fydda ni'n gofyn i chi rhoi pethau yn ddistaw, falle fydda chi'n sgwrsio. Felly fedrwch chi neud o yn fannu.

Y peth nesaf ydy, os yda chi ddangos eich fideo. Fedrwch chi bwysu hwnnw, mae hwnnw i ffwrdd ar y funud, Helo, fedrwch chi weld bod pobl yn medru eich gweld chi a bod chi'n medru gweld eich hun.

Os yda chi yn neud hwn, fedrwch chi ddim newid eich cefndir ar y porwr we. Felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n hapus bod y cefndir yn addas, yn y cefn, a bo chi'n hapus i pobl weld yn eich cefndir chi.

Neu fedrwch chi fod heb y fideo, does dim rhaid i chi gael y fideo o gwbl.

Dwi yn mynd i adael y botymau yma rŵan dydy nhw ddim yn hynod o bwysig a dwi am fynd i top yn fama. Fedrwch chi newid maint y sgrin os yda chi eisiau bach mwy.

Beth sydd ganddo ni ddim, mae Pero yn fanna, efo rhywbeth o'r enw hidlydd, ffilter, felly mae o wedi rhoi animeiddiad ar y cefn. Mae rhaid i chi gael yr ap i fedru neud hynny. A nai ddangos hynny mewn eiliad.

Os nai adael fama rŵan, falle y gewch chi broblem efo eich WIFI tra yn neud y Zoom, falle fydd rhaid i chi adael am reswm arall. Felly os yr ydych chi'n pwysu gadael, a gadael eto. Na'i ddangos sut i ail ymuno.

Felly os yda ni yn sbio ar y we yn fanna rŵan. Mae ganddo chi 'Join a Meeting', OK, mae o yn rhan o Zoom.us a fedrwch chi bwysu 'Join a Meeting.'

Tro yma falle naw ni neud o mewn ffordd bach yn wahanol. Naw ni ddefnyddio'r ap ond naw ni ddefnyddio'r rhifau bach yn gwaelod yma. Dwi'n neud y rhifau yn llwyd drwy ddal lawr y botwm chwith ar y llygoden, a wedyn pwysu ar y botwm dde copïo, wedyn mynd yn ôl at y Chromium Edge at eich porwr we, pa bynnag un sydd ganddo chi, a wedyn pwysu botwm dde a gludo, paste.

Pwysu ymuno eto, croeso i chi deipio nhw fewn ond hwnnw ydy'r ffordd hawsaf dwi'n weld.

Wedyn mae'n gofyn i mi agor drwy'r ap a rŵan dwi am agor drwy'r ap a tro yma dwi am agor drwy'r ap i mi ddangos i chi sut i newid y cefndir yn y cefn.

Mae'n cymryd dipyn bach o amser, a wedyn mae'n gofyn am y 'passcode', mae rhai pethau dan ni'n neud efo cod cyfrinachol ond dy rhai pethau ddim. Mae'r cod cyfrinachol o dan y rhif yna fel arfer, rŵan ta beth dwi'n neud efo hwn, dwi'n neud yr un fath, lliwio fo yn dal y botwm chwith i lawr a mynd drosto, wedyn dwi'n copïo, dwi'n pwysu ar y botwm (y llygoden) fel bo o'n dechrau fflachio, mae'n dechrau dangos ei fod yn barod. Wedyn dwi'n pwysu CTRL ar yr allwedd fwrdd a V am Vulture neu Volvo a ryda chi'n wedyn mynd i mewn.

Am ryw reswm dydy'r llygoden ddim yn gweithio efo hwnnw.

Rŵan os da chi'n sylwi mae o'n gofyn eto i ymuno efo (sŵn) y cyfrifiadur. Y tro yma dwi efo'r ap mae'r ap yn fannu, y symbol dwi wedi lawr lwytho hwnnw yn barod. Os ydych chi angen lawr lwytho rhywbeth neu unrhyw help gofynnwch i ni fedrwn ni helpu chi, fedrwch chi e-bostio ni neu ffonio ni a fedrwn ni helpu i gael chi ar Zoom.

Rŵan ta, mae'r botymau yr un fath, os yr ydych yn sylwi mae ganddo chi ddistewi a botwm i ddad-ddistewi, mae ganddo chi hefys y fideo felly nai ddangos y fideo hefyd, Helo!

Rŵan dwi eisiau dangos sut i newid y cefndir. Pwyso'r saeth bach yma dwi yn mynd i fyny i ddewis cefndir rhithiol, Choose Virtual Background, am rhyw reswm sgan a i ddim.

Weithiau mae ganddo chi rhai sydd ynddo yn barod, a fydd rhai ni yn medru cael ei defnyddio.

Os ydw i yn mynd i ffilter tro yma, fedrai i ddefnyddio ffilter. Mae yna liwiau gwahanol, ww du a gwyn. Dwi eisiau bod yn y theatr? ar deledu bach, gosh mae genna i ben mawr.

Beth bynnag sgan Pero, ond dwi'n hapus i fod ar y teledu.

Felly na'i fynd i fannu ag mi fedrai hefyd, os da chi'n sbïo ar y darn yma, y View, mi fedrwch chi newid wedyn golwg y sgrin, pwy bynnag sydd yn siarad, neu pwy bynnag sydd yn neud rhywbeth a fedrwch chi ddangos nhw'n fannu.

A falle fedrwch chi os da chi mewn grŵp ag eisiau siarad efo lot o bobl fedrwch chi neud galeri, lle mae lot o bobl ar yr un, un sgrin.

Dyna fo yn y bôn.

Mae yna bethau eraill fedrwch chi neud yn yr ap, fedrwch chi ddeud da iawn, chwerthin, parti, ond fydd ddim angen defnyddio rheini yn lot fawr o ein gweithgareddau ar y funud.

Felly na ni, gobeithio bo chi yn deall dipyn bach mwy, a fel ddeudais fedrwn ni helpu os yda chi eisiau codi ffon fydd y rhif ffôn ar y we efo Tîm Lles Cymunedol, a ar Facebook ag ar yr e-bost os yda chi eisiau mwy o help jyst gofynnwch a dwi'n gobeithio y welai chi ar Zoom yn fuan.

Hwyl am y tro Ta ra.